Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn

Cyngor Gwynedd

Medi 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025**

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn
fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan International Organisation of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun Archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 12 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 14 |

# Ciplun archwilio

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ofalu am ei gronfeydd wrth gefn ariannol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod digon o arian wedi'i neilltuo i ddelio â digwyddiadau annisgwyl, tra hefyd yn buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith i gefnogi'r gymuned a chynnal gwerth am arian.

2 Edrychodd yr archwiliad hwn ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, rheoli risgiau, ac ymateb yn hyblyg i anghenion lleol sy'n newid. Drwy sicrhau gwerth am arian, gall cynghorau gefnogi blaenoriaethau cymunedol, cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a diogelu sefydlogrwydd ariannol hirdymor, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio lle mae ganddynt yr effaith gymdeithasol ac economaidd fwyaf.

4 Drwy sicrhau rheolaeth gadarn o gronfeydd wrth gefn, gall Cyngor Gwynedd lywio ansicrwydd ariannol, cefnogi gwasanaethau hanfodol, a chyflawni ei amcanion strategol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym


5 Mae gan Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae Prif Swyddog Cyllid y Cyngor yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau a defnydd cronfeydd wrth gefn. Cryfder allweddol yw proses "gynaeafu" barhaus y Cyngor, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes strategaeth na fframwaith ffurfiol i arwain penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a allai helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol a rhoi sicrwydd eu bod yn gyson yn cyd-fynd ag amcanion y Cyngor.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym yn gwneud un prif argymhelliad i ffurfioli sut mae'r Cyngor yn sefydlu ac yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn. Dylai hyn wella ei drefniadau wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n helpu i sicrhau gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

7 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos pa ganran o wariant Cyngor Gwynedd a gadwyd mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rhwng 2015-16 a 2023-24. Dangosir hyn ochr yn ochr â'r uchafswm a’r isafswm a gadwyd, a'r cyfartaledd.




Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd drwy Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru

8 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos cyfanswm y cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy (fesul £miliwn), heb eu gwarchod gan gyfraith a gadwyd gan Gyngor Gwynedd ochr yn ochr â chyfartaledd Cymru, rhwng 2015-16 a 2023-24.




Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd drwy Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru

9 Mae rhagor o ddata ar gael ar Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol Archwilio Cymru. Mae'r offeryn hwn yn cymharu data ariannol ar gyfer pob cyngor, parc cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru o 2015-16 ymlaen. Gweler: Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Audit Wales

# Ein canfyddiadau

## Mae llywodraethu cronfeydd wrth gefn yn gryf gyda phrosesau adolygu sefydledig

10 Mae gan Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, ac mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau a defnydd cronfeydd wrth gefn. Rhennir y diweddariadau hyn drwy bapurau'r Cabinet, adroddiadau Pwyllgor Craffu, a chyflwyniadau.

11 Mae proses "cynaeafu" y Cyngor yn gryfder allweddol, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ym misoedd pump, wyth, a 12 o'r flwyddyn ariannol. Nid tasg diwedd blwyddyn yn unig yw hon - mae wedi'i hymgorffori mewn monitro ariannol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r broses yn gwirio a oes dal angen cronfeydd wrth gefn at eu diben gwreiddiol ac a ellir eu hailddyrannu. Mae'r adolygiad parhaus hwn yn arfer nodedig.

12 Fodd bynnag, er bod y broses wedi'i hen sefydlu, mae'n dibynnu'n fawr ar farn broffesiynol. Mae tystiolaeth gyfyngedig o resymu systematig y tu ôl i lefelau y cronfeydd wrth gefn. Er enghraifft, nid yw penderfyniadau i gadw symiau penodol bob amser yn cael eu cefnogi gan gyfrifiadau clir na rhesymeg wedi'i dogfennu. Gallai cyflwyno trothwyon cymesur ar gyfer adolygu wella cysondeb a sicrwydd, yn enwedig ar gyfer cronfeydd wrth gefn mwy.

## Mae'r ddealltwriaeth o'r cronfeydd wrth gefn yn glir, ond mae'r strategaeth yn anffurfiol

13 Mae'r Cyngor yn deall y mathau o gronfeydd wrth gefn y mae'n eu dal ac yn adrodd arnynt yn glir yn ei gyfrifon. Mae hefyd yn egluro faint sydd wedi'i glustnodi ac at ba ddiben. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'n penderfynu a yw cronfeydd wrth gefn yn ddigonol (heb fod yn rhy isel nac yn rhy uchel) yn llai clir. Nid oes strategaeth na fframwaith ffurfiol i arwain penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn.

14 Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn presennol yn fwy o ddogfen ddisgrifiadol nag offeryn gwneud penderfyniadau. Mae'n amlinellu diffiniadau a chyfrifoldebau ond mae'n brin o feini prawf ar gyfer sefydlu, adolygu neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Er y gall y Cyngor egluro pa gronfeydd wrth gefn sy'n bodoli, mae hyn yn golygu na all bob amser esbonio pam mae symiau penodol yn cael eu dal neu a ydynt yn dal yn briodol. Pe bai ei bolisi yn offeryn gwneud penderfyniadau, gallai'r Cyngor a'r cyhoedd fod yn sicr eu bod yn cael eu cymhwyso'n gyson i'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.

15 Mae'r broses gynaeafu yn helpu i nodi cronfeydd wrth gefn nad oes eu hangen mwyach, ond nid yw bob amser yn casglu tystiolaeth i gael sicrwydd bod y balans ar y lefel angenrheidiol. Byddai strategaeth cronfeydd wrth gefn fwy strwythuredig yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn gyson, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor. Byddai hefyd yn cefnogi gwell defnydd o arian cyhoeddus drwy ryddhau arian nad oes ei angen mwyach at eu diben gwreiddiol.

## Defnyddir cronfeydd wrth gefn mewn cynllunio risg, ond nid oes strategaeth ar gyfer ailgyflenwi

16 Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i reoli risgiau ariannol, fel tywydd garw, costau cyfreithiol, neu fethiannau system. Mae'r risgiau hyn wedi'u cydnabod yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i'w lliniaru. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor gynllun clir ar gyfer ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

17 Mae tystiolaeth gyfyngedig hefyd o sut mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfrifo. Mae llawer yn ffigurau crwn, ac er bod hyn yn gyffredin, nid yw'r rhesymeg y tu ôl iddynt bob amser yn glir. Er enghraifft, nid yw'n amlwg sut mae'r Cyngor yn penderfynu mai £900,000 yw'r swm cywir ar gyfer risg benodol. Mae hyn yn gwanhau'r sicrwydd bod cronfeydd wrth gefn yn gymesur â'r risgiau y bwriedir iddynt eu lleddfu.

18 Mae dull darbodus y Cyngor yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd yn rhedeg cronfeydd wrth gefn i lawr yn llwyr. Fodd bynnag, heb strategaeth ar gyfer cynnal neu adfer lefelau cronfeydd wrth gefn, mae risg na fydd arian ar gael pan fo angen. Byddai cysylltiad cliriach rhwng chwant am risg, lefelau cronfeydd wrth gefn, a chynlluniau ailgyflenwi yn cryfhau gwydnwch ariannol ac yn cefnogi cynllunio hirdymor gwell.

## Mae adrodd ar gronfeydd wrth gefn yn dryloyw, ond fe all cyfathrebu wella

19 Mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau adrodd ac yn rhannu diweddariadau rheolaidd ar gronfeydd wrth gefn drwy sianeli ffurfiol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys nodiadau manwl a geirfa i helpu i esbonio symudiadau cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, gellid gwella rhai agweddau ar gyfathrebu i helpu rhanddeiliaid i ddeall y wybodaeth yn haws.

20 Er enghraifft, mae'r Cyngor yn dal rhai cronfeydd wrth gefn sy'n ymddangos fel pe baent â diben tebyg fel y Gronfa Trawsnewid Busnes a Chronfa Trawsnewid / Cynllun y Cyngor. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i aelodau a'r cyhoedd ddeall sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio.

21 Er bod y Cyngor yn dryloyw yn ei gyfrifyddu ar gronfeydd wrth gefn, gallai'r ffordd y mae'n cyflwyno'r wybodaeth fod yn gliriach. Byddai gwella cyfathrebu ynghylch sut mae'r cronfeydd wrth gefn yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynol yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a chefnogi gwell ymgysylltiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried arwyddocâd rhai cronfeydd wrth gefn, fel y £18 miliwn a gedwir yn y Gronfa Strategaeth Ariannol, sydd heb nenfwd clir na diben wedi'i ddiffinio.

## Mae defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn yn amlwg, ond gellid gwella blaenoriaethu

22 Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi ei nodau strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor, gan gynnwys tai a thrawsnewid digidol. Er enghraifft, mae incwm o bremiwm treth y cyngor ar ail gartrefi wedi'i glustnodi i gefnogi strategaeth dai y Cyngor. Mae gan y gronfa hon ddiben clir, cynllun gwariant wedi'i ddiffinio, a chysylltiadau â risgiau a nodwyd fel apeliadau cyfreithiol.

23 Fodd bynnag, nid yw pob cronfa wrth gefn yn cael ei rheoli gyda'r un eglurder. Mae rhai, fel y gronfa wrth gefn gwastraff, yn dal symiau sylweddol heb resymeg glir. Nid yw polisi presennol y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu defnydd cronfeydd wrth gefn neu benderfynu pryd i ryddhau arian ar gyfer buddsoddi. Mae hyn yn peryglu gwneud penderfyniadau adweithiol ac yn cyfyngu ar ei allu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w potensial llawn.

24 Mae dull pwyllog y Cyngor wedi ei helpu i adeiladu cronfeydd wrth gefn cryfion, sydd wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i reoli hinsawdd ariannol anodd. Byddai fframwaith gwneud penderfyniadau strwythuredig yn helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn rhoi sicrwydd eu bod yn cyd-fynd yn gyson ag amcanion y Cyngor.

# Argymhellion

**A1** Er mwyn sicrhau bod ei gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau presennol drwy fabwysiadu strategaeth cronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys

1.1 meini prawf i benderfynu pryd a sut y dylid sefydlu a blaenoriaethu cronfeydd wrth gefn; a

1.2 dull cymesur i gefnogi'r rhesymeg y tu ôl i'r symiau a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Adolygodd yr archwiliad hwn ddull y Cyngor o reoli ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau'n strategol. Canolbwyntiodd ar:

- lywodraethu a goruchwylio cronfeydd wrth gefn;
- mathau a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn;
- y berthynas rhwng rheoli risg a rheoli cronfeydd wrth gefn;
- adrodd ariannol a thryloywder; a
- defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

- A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu a goruchwylio digonol ar gyfer ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A oes gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o fathau a digonolrwydd ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A yw trefniadau rheoli gwasanaethau a risg y Cyngor yn llywio ei reolaeth strategol o gronfeydd wrth gefn a falansau?
- A yw trefniadau Adrodd Ariannol y Cyngor yn sicrhau tryloywder yn y rheolaeth strategol o'i gronfeydd wrth gefn a'i falansau?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod y defnydd o'i gronfeydd wrth gefn yn effeithiol?

## Meini prawf

Ystyriodd yr archwiliad sut y gwnaeth y Cyngor gymhwyso canllawiau CIPFA, (Chartered Institute of Public Finance and Accountancy) sy'n pwysleisio pwysigrwydd protocolau clir ar gyfer sefydlu, defnyddio ac adolygu cronfeydd wrth gefn. Gwerthusodd rôl y prif swyddog cyllid wrth gynghori ar lefelau cronfeydd wrth gefn, digonolrwydd cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â risgiau a nodwyd, a thryloywder adrodd ariannol. Yn ogystal, archwiliwyd sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pryd a sut y dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn.

## Dulliau

Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys adolygiadau dogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion ac aelod etholedig.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.